SL(5)374 - Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Cefndir a Diben

Mae Cyfarwyddeb 2000/29/EC y Cyngor ("y Gyfarwyddeb Iechyd Planhigion") yn sefydlu cyfundrefn iechyd planhigion yr UE. Mae'r Gyfarwyddeb Iechyd Planhigion yn cynnwys mesurau i'w cymryd er mwyn atal plâu difrifol a chlefydau planhigion a chynnyrch planhigion rhag cael eu cyflwyno i'r UE a'u lledaenu ynddi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro diffygion yn y ddeddfwriaeth ddomestig a ganlyn, sy'n gweithredu Cyfarwyddeb yr UE 2000/29/EC ar fesurau i amddiffyn iechyd planhigion (coedwigaeth) sy'n codi o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE mewn senario 'dim cytundeb':

- Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005
- Rheoliadau Deunyddiau Atgenhedlol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002
- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019

Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

    - Nid yw'r rhagarweiniad i'r Rheoliadau hyn yn dyfynnu'r pwerau galluogi yn gywir. Mae'r pŵer cyntaf a ddyfynnir yn Adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn bŵer Ysgrifennydd Gwladol, felly mae'r dyfyniad yn anghywir. Yr ail bŵer a ddyfynnir yw Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, fodd bynnag er mwyn eglurder dylai'r dyfyniad hwn fod yn fwy manwl gywir wrth gyfeirio at y pŵer penodol yn yr Atodlen honno.

2. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

    - Yn y geiriau cyn Rheoliad 2, mae "Material" wedi cael ei adael allan o'r cyfeiriad at Reoliadau *Deunyddiau* Atgenhedlol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002 [*pwyslais wedi'i ychwanegu*].

3. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

    - Mae rheoliad 4(a) o'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r diffiniadau o "solid fuel wood" ac "OPM protected zone" o Erthygl 2(1) Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005. Fodd bynnag, dim ond mewn perthynas â Lloegr a'r Alban y mae'r termau hyn yn berthnasol (cafodd ei fewnosod yng Ngorchymyn 2005 gan Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio)

(Lloegr a'r Alban) 2016 a Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) (Lloegr a'r Alban) 2018 yn y drefn honno).

4. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

   - Mae rheoliad 4(e) o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Erthygl 2(5) o Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005. Fodd bynnag, dim ond mewn perthynas â Lloegr a'r Alban y mae paragraff (5) yn gymwys (cafodd ei fewnosod yng Ngorchymyn 2005 gan Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) (Lloegr a'r Alban) 2016).

5. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

   - Yn Rheoliad 18(c) dylid cynnwys "or" fel rhan o'r geiriau sy'n cael eu mewnosod. Dylai geiriad y Rheoliad ddarllen "in paragraph (B1)(a) *or*"[*pwyslais wedi'i ychwanegu*].

6. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

   - Mae rheoliad 30 yn cynnwys dau gyfeiriad at Erthygl 6(1) o Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005. Fodd bynnag, caiff Erthygl 6(1) ei dirymu gan Reoliad 10(c) o'r Rheoliadau hyn. Felly nid yw'n glir pa ddarpariaeth y cyfeirir ati.

7. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

   - Mae rheoliad 30 yn cynnwys dau gyfeiriad at Erthygl 12(1) o Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005. Fodd bynnag, caiff Erthygl 12(1) ei dirymu gan Reoliad 18(b) o'r Rheoliadau hyn. Felly nid yw'n glir pa ddarpariaeth y cyfeirir ati.

8. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

   - Mae Rheoliad 50(b) yn cynnwys gwall teipograffyddol. Dylai'r ail linell ddechrau gyda "place" yn hytrach na "pace".

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn cydnabod bod y cyfeiriad at adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ('y Ddeddf') yn gamgymeriad. Ni chredwn fod hyn yn addasu effaith yr offeryn, sy'n parhau i fod intra vires hyd yn oed yng ngoleuni'r penderfyniad yn achos Vibixa Ltd v Komori UK Ltd [2006] EWCA Civ. 536 (gweler, hefyd, dudalen 132 o Craies, 10fed rhifyn) gan ei fod wedi cyfeirio, yn gywir er nad yn gwbl

eglur, at y pwerau a roddir gan Atodlen 2 i'r Ddeddf (gweler isod). Er hynny, gan fod hyn yn amlwg yn gamgymeriad (gan nad yw adran 8(1) yn bŵer sydd ar gael i Weinidogion Cymru) a bod ffordd amlwg o'i gywiro (dileu'r cyfeiriad at adran 8(1)), a chan nad yw'n digwydd yn nhestun yr offeryn ei hun, bwriadwn gywiro hyn drwy slip cywiro.

Rydym hefyd yn cydnabod y dylai'r cyfeiriad at bwerau yn Atodlen 2 i'r Ddeddf bennu'n briodol y pŵer ym mharagraff 1(1). Eto, ni chredwn fod hyn yn addasu effaith yr offeryn – unwaith eto mae'n amlwg pa bŵer yn Atodlen 2 y dibynnir arno ac yn wir, mae'r ddarpariaeth graffu a nodir yn y rhagymadrodd (paragraff 1(8) o Atodlen 7 i'r Ddeddf) yn cyfateb i'r pŵer hwnnw yn unig. Ymddengys mai dyma yw byrdwn eich adroddiad, sy'n dweud y dylai'r cyfeiriad fod yn fwy manwl er mwyn eglurder, yn hytrach na'i fod yn codi unrhyw gwestiwn o ran vires. Yn yr un modd, gan fod hwn yn gamgymeriad amlwg sy'n hawdd ei gywiro, nad yw'n digwydd yn nhestun yr offeryn ei hun, bwriadwn gywiro hyn drwy slip cywiro.

Bydd y slip cywiro ar gyfer pob un o'r gamgymeriadau hyn yn rhoi'r geiriau 'paragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018' yn lle'r geiriau 'adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ac Atodlen 2 iddi'.

Mae'r ail bwynt adrodd yn ymwneud â'r ffaith nad yw'r gair "Material" wedi'i gynnwys ym mhennawd rheoliad 2 (yn y testun Saesneg). Mae hwn hefyd yn amlwg yn gamgymeriad y mae modd ei gywiro'n ddiamwys. Mae rheoliad 2 yn mynd ymlaen ar ei union i gyfeirio'n gywir ac yn llawn at 'the Forest Reproductive Material (Great Britain) Regulations 2002', ac mae'n amlwg y dylai hyn hefyd fod wedi'i gynnwys yn y pennawd. Bwriadwn ymdrin â hyn drwy slip gywiro, gan ychwanegu'r gair coll 'Material' at deitl y rheoliadau y cyfeirir atynt yn y pennawd er mwyn sicrhau bod y pennawd a gyhoeddir mewn adnoddau ar-lein yn gywir, yn enwedig o ystyried bod defnyddwyr sy'n edrych ar y rheoliadau ar-lein yn ddibynnol ar benawdau rheoliadau unigol.

O ran y trydydd pwynt adrodd, mewnosodwyd y diffiniad o "OPM protected zone" gan erthygl 3(a)(v) o Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) (Cymru) 2019 (mewn grym o 28 Mawrth 2019), ac felly caiff ei ddirymu'n briodol. O ran y cyfeiriad at "solid fuel wood", gan ei fod yn dirymu diffiniad nad oedd erioed yn bodoli yn y gorchymyn gwreiddiol rydym yn derbyn y gallai ei gynnwys beri dryswch i rywun sydd â diddordeb arbennig mewn "solid fuel wood". Caiff hwn ei ddileu mewn OS cymoni.

Yn yr un modd, o ran y pedwerydd pwynt adrodd, mewnosodwyd erthygl 2(5) hefyd gan erthygl 3(c) o Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) (Cymru) 2019, ac felly caiff ei ddirymu'n briodol gan y rheoliadau hyn.

Fel esboniad o'r dull anarferol o ddiwygio a dirymu'n syth wedyn, mae'n digwydd oherwydd penderfyniad DEFRA i ailstrwythuro'r ddeddfwriaeth berthnasol drwy ei OS Ymadael â'r UE, gan ei gwneud hi'n ofynnol i Gymru fynd ati ar unwaith i gysoni ei threfn o ymdrin â phlâu mewn coedwigaeth â'r drefn yn Lloegr ac yn yr Alban yn y mannau nad oedd yn gyson.

Caiff y pumed pwynt adrodd ei gywiro mewn OS cymoni. Derbynnir bod hyn yn angenrheidiol am fod cyd-destun y ddarpariaeth yn caniatáu i'r eitem goll fod yn 'and' neu'n goma a fyddai'n newid yr ystyr a fwriedid.

Gellir ymdrin â'r chweched a'r seithfed pwynt adrodd gyda'i gilydd. Dylai'r cyfeiriad at 6(1) ddweud 6. Dylai'r cyfeiriad at 12(1) ddweud 12. Bwriedir diwygio'r rhain mewn OS cymoni.

Derbynnir yr wythfed pwynt adrodd ond gan fod cyd-destun y ddarpariaeth yn ei gwneud hi'n eglur mai "place" y dylai'r gair fod, ni fyddem yn diwygio hyn fel arfer. Ond gan fod angen OS cymoni beth bynnag, caiff hyn ei ddiwygio hefyd.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd technegol uchod.